Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cae Top
# Ffordd Eithinog
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 2GZ

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cae Top, sydd dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, wedi ei lleoli ym Mangor. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 234 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 28 o oed meithrin. Mae wyth dosbarth un oedran yn yr ysgol.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Ychydig iawn o ddisgyblionsy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae tua 25% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg ac yn siarad 16 gwahanol iaith. Mae tua 24% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 14% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 24% ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2015, a'r dirprwy ers Rhagfyr 2015.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cae Top yw £3,837. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r isafswm yw £2,981. Mae Ysgol Cae Top yn safle 58 o'r 98 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn, gan alw i gof ddysgu blaenorol yn dda a chymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn llwyddiannus iawn
- medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan iawn o ystyried eu cefndir ieithyddol, a'u bod yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd, gan newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol yn y ddwy iaith ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn defnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu estynedig Saesneg i safon uchel ar draws y cwricwlwm
- rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol iawn i amrywiaeth o gyd-destunau ac, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn arddangos medrau trin data rhagorol
- disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- agwedd disgyblion tuag at ddysgu yn eithriadol gyda bron pob disgybl yn dangos ddiddordeb yn eu tasgau ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig
- gallu'r disgyblion i wella'u dysgu eu hunain yn agwedd gref iawn o waith ym mhob dosbarth a'u bod, erbyn Blwyddyn 6, yn dangos aeddfedrwydd arbennig wrth arfarnu a gwella eu gwaith
- athrawon yn cynllunio rhaglenni dysgu hyblyg, ymatebol ac arloesol sy'n sicrhau ystod arbennig o brofiadau dysgu o ansawdd uchel i ddisgyblion
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng staff a disgyblion sy'n creu ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel
- yr ysgol yn rhoi bri amlwg ar gefndiroedd a diwylliannau amrywiol disgyblion er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddwys o grefyddau a thraddodiadau'r byd a'r ffordd y mae diwylliannau eraill yn cyfoethogi eu bywydau

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol
- gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel iawn sy'n cyfleu gweledigaeth i'r staff, disgyblion a'r llywodraethwyr yn seiliedig ar sicrhau llwyddiant pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial
- cyfrifoldebau yn cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol sy'n sicrhau bod pawb yn defnyddio'i chryfderau a chymwysterau unigol i sicrhau'r effaith fwyaf

- yr holl staff yn cydweithio'n hynod o effeithiol fel tîm i gydgynllunio er mwyn hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy
- cymuned ddysgu gref iawn lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol
- diwylliant o hunanarfarnu a gwella, sy'n ystyried llais y dysgwyr yn gyson dda, yn treiddio'r ysgol
- gan yr holl athrawon ddarlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd sydd angen eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n addas i anghenion yr ysgol, ac yn rhoi sylw pennaf i ddeilliannau'r disgyblion
- ystod effeithiol o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Parhau i godi safonau yn y Gymraeg

A2 Cryfhau rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. O ystyried eu man cychwyn yn yr ysgol, yn arbennig eu gallu i siarad Cymraeg, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn dangos bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu. Mae bron pob disgybl yn dangos gwir ddiddordeb yn eu tasgau ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn llwyddiannus iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod gwersi. Mae medrau llafar rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan iawn. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol ac mae'r rhan fwyaf yn ei defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith ac wrth chwarae rôl. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn gadarn mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ac maent yn sgwrsio'n hyderus ag ymwelwyr. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau pan fyddant yn siarad am eu gwaith. Ar frig yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus mewn brawddegau estynedig, gan ddefnyddio iaith yn effeithiol iawn yn Saesneg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan bron bob disgybl agwedd bositif tuag at ddarllen ac maent yn mwynhau edrych ar lyfrau. Siaradant yn hyderus ac awyddus am amrywiaeth o hoff lyfrau a'r llyfrau sydd ganddynt gartref. Maent yn mynegi barn am y stori a thrafod y cymeriadau. Mae darllen yn datblygu'n dda, gyda mwyafrif y disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn gywir ac yn ymdopi'n dda â geiriau anghyfarwydd. Mae'r lleiafrif yn darllen gyda mynegiant ac ystyr priodol. Mae medrau darllen Cymraeg rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda ac maentyn ymateb yn dda i lyfrau ffuglen a ffeithiol. Yn Saesneg, mae'r rhan fwyaf, wrth ddarllen ar goedd, yn cymeriadu'n effeithiol, gan ddefnyddio ystod o strategaethau darllen pwrpasol yn llwyddiannus. Gwnânt ddefnydd hynod o effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddysgu am y planedau.

Mae safon ysgrifennu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio brawddegau yn gywir gan ddefnyddio agoriadau gwahanol yn aml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod eang o wahanol gyfryngau, er enghraifft ysgrifennu am stori Branwen a chreu erthygl papur newydd am Dân Mawr Llundain. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu am galendr y Tseineaid. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn gyson ac effeithiol ar draws meysydd amrywiol. Mae rhan

fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n gywir yn y Gymraeg ac yn gwneud cynnydd da. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig i safon uchel, yn enwedig yn Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu gwaith yn fedrus ac yn creu darnau estynedig rhagorol, er enghraifft wrth gynllunio dadl o blaid neu yn erbyn boddi Cwm Tryweryn, neu wrth ysgrifennu dyddiadur hanesyddol am Y Pla yn Llundain ym 1665.

Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Mae medrau mathemateg pen y rhan fwyaf yn datblygu'n dda iawn. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol, cyfuno gwaith ar ffracsiynau ac arian, ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Maent yn casglu data o ystod o ffynonellau yn effeithiol ac yn cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graffiau amrywiol. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl, ymchwilio, TGCh a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth wneud ymchwil i gartrefi disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Mae bron bob un yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ar bapur ac ar gyfrifiannell i ddatrys problemau. Maent yn trosglwyddo eu medrau datrys problemau yn effeithiol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth ymchwilio i ddefnydd a chost dŵr yn y cartref. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol iawn i gefnogi eu gwaith mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu gwerthiant recordiau yn y 60au. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn trin data i safon uchel iawn, er enghraifft wrth archwilio'r berthynas rhwng pwysau a màs.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'u medrau TGCh i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau TGCh rhan fwyaf o'r disgyblion yn ardderchog, er enghraifft wrth iddynt ddatblygu a modelu gwybodaeth i gefnogi eu gwaith ar fwystfilod bychan. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau cyfoes mewn modd creadigol iawn. Enghraifft o hyn yw'r ffordd mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu ffilmiau amlgyfrwng i bwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo. Nodwedd arbennig yw eu defnydd hyderus a chreadigol o wefannau personol sy'n eu galluogi i gydgyfrannu ac i gydwerthuso eu gwaith yn yr ysgol ac i gael mynediad iddo gartref.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u mannau cychwyn. Mae disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd arbennig o dda.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig wedi codi o'r 50% is i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch dros y pedair blynedd diwethaf. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd yn tueddu i osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu gydag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol**.**

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth, wedi cyfnod o dair blynedd yn y 50% is, wedi codi i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch. Ar y lefel uwch, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi tueddu i osod yr ysgol yn y 25% isaf.

Nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Rhagorol**

Mae agwedd bron bob un disgybl at ddysgu yn ardderchog. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron bob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel. Maent yn hynod o gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Maent yn falch o'u hysgol ac mae eu hagwedd tuag at ddysgu yn ganmoladwy. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae gallu'r disgyblion i wella'u dysgu eu hunain yn agwedd gref iawn o waith ym mhob dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn dangos aeddfedrwydd arbennig wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig iawn, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Maent yn cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda staff i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, iach a hapus, er enghraifft wrth gynllunio'r parc antur sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu ffitrwydd. Mae llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol ac mae disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol. Nodweddion arbennig yw cyfraniad y grŵp effeithiolrwydd disgyblion, sy'n arsylwi gwersi a rhoi barn ar agweddau sydd yn annog i ddisgyblion i ddysgu'n well. Mae gwaith blaenllaw'r grŵp Cymry Cŵl wrth hybu ac adolygu cynnydd tuag at wireddu'r siarter iaith yn arwyddocaol hefyd.

Mae bron bob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach. Maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corff rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb hefyd yn gyson dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n diwallu anghenion disgyblion o bob oedran a gallu yn llwyddiannus iawn. Trwy gydweithio effeithiol ac arweiniad clir, mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad o weithgareddau symbylus a heriol. Mae athrawon yn cynllunio rhaglenni dysgu hyblyg, ymatebol ac arloesol. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn llwyddiannus iawn. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion.

Caiff medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh ffocws clir yn y cynlluniau, ac mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar godi safonau holl garfanau'r disgyblion. Mae athrawon yn cydgynllunio'n hynod fanwl i sicrhau bod gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u cyfuno'n gelfydd i gynlluniau gwaith y dosbarthiadau. Adlewyrchir hyn yn glir yng ngallu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau'n adeiladol a llwyddiannus wrth symud drwy'r ysgol. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh yn gryfder amlwg. Enghraifft o hyn yw'r gwaith animeiddio o safon uchel a wna disgyblion yn annibynnol yn y ddau gyfnod allweddol. Nodwedd arbennig yw'r defnydd o wefannau personol sy'n galluogi disgyblion cyfnod allweddol 2 i gydgyfrannu ac i gydwerthuso eu gwaith yn yr ysgol ac i gael mynediad iddo gartref.

Mae cwricwlwm yr ysgol a chynllunio bwriadus yr athrawon yn hybu dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Mae ymrwymiad yr ysgol i Siarter Iaith Gwynedd yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg a pharch at yr iaith yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw brwdfrydedd a mwynhad y disgyblion wrth ganu caneuon Cymraeg mewn gwasanaeth. Mae ystod gyfoethog o brofiadau gwerthfawr i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae arddangosfeydd o astudiaethau disgyblion o waith artistiaid o ansawdd uchel iawn ac yn nodwedd arbennig.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang o safon uchel iawn, gyda chyfleoedd pwrpasol i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd. Mae profiadau amlddiwylliannol yn rhan naturiol o fywyd bob dydd ac mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i barchu amrywiaeth o fewn eu cymdeithas. Enghraifft o hyn yw'r ysgol yn dathlu iaith y mis a gwahodd siaradwyr i'r ysgol i siarad am iaith a diwylliant pobl o wahanol wledydydd. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion am sut i fyw mewn modd cynaliadwy.

## Addysgu: Rhagorol

Mae safonau addysgu uchel yn ffactor arwyddocaol yn y cyflawniadau a lles rhagorol a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae'r drefn gytûn o gynllunio gweithgareddau dysgu gwahaniaethol sy'n ymestyn disgyblion o bob gallu yn nodwedd ardderchog. Mae'r holl athrawon yn cynllunio'n hynod o drylwyr i sicrhau gweithgareddau diddorol sy'n seiliedig ar ddiddordebau a syniadau'r disgyblion er mwyn ennyn eu cyfranogiad

a'u hymrwymiad. Mae hyn yn sicrhau cynnydd da iawn ar draws y cwricwlwm. Lle mae'r addysgu yn arbennig o effeithiol, mae cyflymder gwersi yn nodwedd gref ac mae athrawon yn defnyddio ystod goeth o ddulliau i ddatblygu medrau'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob plentyn ac mae ansawdd y cyflwyniadau a chwestiynau gan athrawon yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn ymroi'n llwyr i'r tasgau â chymhelliant, ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig iawn.

Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth gyda pherthynas weithgar yn bodoli. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod o effeithiol fel tîm. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llefaredd.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gydgynllunio gyda'r athrawon, i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Mae'r holl athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn fuddiol iawn ac, o ganlyniad, maent yn cynllunio'n benodol ar gyfer anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion, felly mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyrhaeddiad.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff a chadw'n heini yn llwyddiannus trwy amrywiaeth eang o gyfleoedd yn ystod amser ysgol ac yn allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn manteisio'n sylweddol ar gyfleoedd i gydweithio gyda nifer o asiantaethau arbenigol. Er enghraifft, mae cysylltiadau buddiol gyda'r seicolegydd addysg, therapydd iaith a gwasanaethau iechyd ac adrannau yn y brifysgol leol yn sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae cydweithio da rhwng yr ysgol a rhieni ar gyfer rhannu gwybodaeth a derbyn cymorth ac arbenigedd yn effeithio'n gadarn ar gynnydd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gweithdrefnau yn drwyadl, ac yn galluogi'r staff i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar, a darparu cefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant a chânt eu cynnwys yn llawn yn y broses o greu a gwerthuso'r cynlluniau.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol, gofalgar, hollol gynhwysol sy'n annog parch tuag at blant ac oedolion yn eithriadol. Yn ddieithriad, mae staff yn darparu model effeithiol o ymddygiad a moesau. Mae'r ysgol yn rhoi bri amlwg ar gefndiroedd a diwylliannau amrywiol disgyblion. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o grefyddau a thraddodiadau'r byd yn rhagorol ac maent yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae diwylliannau eraill yn cyfoethogi eu bywydau. Enghraifft o hyn yw dathlu iaith y mis, sy'n ennyn balchder ymhlith y disgyblion hynny sy'n siarad ieithoedd eraill, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a gwybodaeth yr holl ddisgyblion am ei gilydd. Mae cynllunio digwyddiadau ar y cyd ag ysgolion eraill er mwyn i'r disgyblion eu hunain gael effaith bositif ar ddisgyblion eraill yn hynod o lwyddiannus. Enghraifft o hyn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion loywi eu medrau llafar Gymraeg ar yr un pryd â rhannu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill gyda disgyblion o ysgol gyfagos lle mae'r Gymraeg yn iaith y cartref.

Mae'r adeilad o ansawdd rhagorol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n raenus. Gwneir defnydd llawn ohono i gynnig awyrgylch dysgu diogel o safon uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol iawn ac mae ystod eang o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Mae arddangosfeydd symbylol a chreadigol iawn o waith athrawon a chyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol sy'n cefnogi dysgu yn effeithiol iawn. Mae'r gwaith celf ym mhob rhan o'r ysgol yn drawiadol. Mae hyn yn rhoi bri ar waith y disgyblion ac yn ennyn eu balchder yn eu gwaith. Mae cynllun yr ysgol yn cynnwys nifer o elfennau amgylcheddol a chynaliadwy, fel paneli solar ac ailddefnyddio dŵr, sy'n hybu dealltwriaeth y disgyblion o effaith arbed ynni ar yr amgylchedd yn effeithiol iawn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth a'r uwch dîm rheoli'n gosod cyfeiriad strategol glir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Maent yn cyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn.

Nodwedd arbennig yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol. Mae hyn yn rhan o strategaeth yr ysgol i ddatblygu staff a hybu cydweithio a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur rhwng yr holl

staff. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn defnyddio'u cryfderau a chymwysterau unigol i sicrhau'r effaith fwyaf. Maent yn cydweithio'n hynod o effeithiol fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd mewn grwpiau amrywiol i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy drefniadau rheoli perfformiad trylwyr sy'n cynnwys targedau heriol.

Mae'r pennaeth ac athrawon amrywiol yn ymweld ag ysgolion eraill yn rheolaidd i gynnig arweiniad ar agweddau o'r cwricwlwm fel rhifedd, TGCh a materion rheolaethol fel creu rhaglen digidol reolaethol newydd. Mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad proffesiynol staff ac ansawdd y ddarpariaeth, yn ogystal â chodi safonau gwaith disgyblion. Gwelir tystiolaeth gadarn o hyn yn y ffordd mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm ac yn arbennig yn safon ysgrifennu estynedig Saesneg, rhifedd a TGCh disgyblion ar frig yr ysgol.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda gan y llywodraethwyr. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae trefn drylwyr yr ysgol o fonitro data yn sicrhau eu bod yn wybodus am berfformiad yr ysgol dros amser o'i gymharu ag ysgolion eraill. Mae ymweliadau â dosbarthiadau yn eu galluogi i ddod i farn sicrach ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion ac i herio a chwestiynu arweinwyr am berfformiad yr ysgol. Er hynny, nid yw rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bositif i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ymsefydlu'n gadarn iawn yng nghynlluniau'r ysgol ac yn llywio'r dysgu'n llwyddiannus iawn. Mae staff a disgyblion yn gweithredu'n gadarnhaol iawn i wireddu amcanion y Siarter Iaith, ac mae effaith hyn i'w gweld yn glir yn ethos Cymreig yr ysgol a'r gwelliannau amlwg yn safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn hynod o drylwyr ac yn tynnu ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro cynhwysfawr o safonau ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu, barn y rhieni a rhanddeiliaid eraill ac adolygiadau tymhorol gan asiantaethau allanol.

Mae trefniant yr ysgol i wrando ar lais y dysgwyr yn elfen gref iawn yn y broses. Mae disgyblion yn gwneud cyfraniadau rheolaidd drwy'r amrywiol bwyllgorau a grwpiau gweithredu. Maent yn defnyddio eu medrau TGCh yn hyderus drwy greu a dadansoddi canlyniadau holiaduron ac yn dod i gasgliadau cyn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant. Nodweddion arbennig yw cyfraniad y grŵp effeithiolrwydd disgyblion wrth arsylwi gwersi a rhoi barn ar agweddau sydd yn annog i ddisgyblion i ddysgu'n well. Mae gwaith blaenllaw'r grŵp Cymry Cŵl hefyd yn bwysig ym mywyd yr ysgol ac wedi arwain at gynnydd yn nefnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Cryfder yn y broses hunanarfarnu yw'r ffordd mae pob aelod o staff yn rhannu eu syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd. Mae gan yr uwch dîm rheoli berchnogaeth gref unigol yn y broses a'r ddogfen hunanarfarnu trwy adolygu a chyfrannu o ran eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn cynnal adolygiadau trylwyr iawn i sicrhau bod ganddynt ddarlun clir a dealltwriaeth gadarn o safonau a darpariaeth. Mae eu hadroddiadau yn finiog ac arfarnol ac yn rhoi'r sylw pennaf i ddeilliannau disgyblion. Mae trefniadau monitro trylwyr a chyfraniad blaengar y pennaeth ar ddata yn galluogi'r staff i gyflawni'r gwaith hwn yn llwyddiannus iawn, nid yn unig yn yr ysgol, ond mewn ysgolion eraill o fewn yr awdurdod. O ganlyniad, mae gan yr holl athrawon ddarlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ymhellach, sy'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad hunanarfarnu eithriadol. Mae hyn wedi arwain at gymuned ddysgu gref iawn lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn.

Mae gallu'r corff llywodraethol i herio data perfformiad yn datblygu'n gynyddol drwy gyflwyniadau gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli. Mae'r cyflwyniadau hyn yn sicrhau bod gan yr holl arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn effeithiol iawn i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n addas i anghenion yr ysgol, ac sy'n rhoi ffocws cryf ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n ddogfen o safon uchel sy'n nodi targedau perthnasol a phenodol a meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Mae cymhwysedd a gallu'r arweinwyr a'r staff i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith yn arbennig o dda. Enghraifft o hyn yw'r gwelliannau amlwg a mesuradwy yn safonau'r Gymraeg dros y ddwy flynedd diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod effeithiol o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cyfrannu symiau sylweddol o arian i ddarparu profiadau ac adnoddau. Mae ffocws y pennaeth ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni. Mae cysylltiadau digidol arloesol sydd wedi eu cyflwyno gan y pennaeth yn ddiweddar wedi hwyluso a chryfhau'r cyfathrebu'n sylweddol.

Mae ymweliadau disgyblion â'r gymuned i amrywiol bwrpasau yn ehangu eu profiadau yn sylweddol; er enghraifft, darparu adloniant Nadolig yn yr ysbyty leol a chynnal gwasanaethau yn yr eglwys. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant iach o gydweithio effeithiol gydag ysgolion eraill sy'n manteisio ar gyfleoedd amrywiol i godi safonau disgyblion ac ehangu eu profiadau. Er enghraifft, mae aelodau'r uwch dîm rheoli wedi arwain hyfforddiant mewn ysgolion eraill ar gynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh. Mae hyn yn eu helpu i rannu'r arfer orau hon ac i hybu cyfleoedd dysgu arloesol i ddisgyblion.

Mae partneriaeth effeithiol a threfniadau pontio amrywiol yn hyrwyddo trosglwyddo llwyddiannus i'r disgyblion i'r ysgol uwchradd. Mae perthynas dda iawn yn bodoli hefyd rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sy'n cyfarfod ar dir yr ysgol. Mae'r cydweithio cyson a pharhaus hwn yn werthfawr i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r deilliannau disgwyliedig

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hynod o effeithiol. Nodwedd ragorol yw blaengaredd yr ysgol i gydweithio a chymryd rhan mewn rhwydweithiau proffesiynol amrywiol sy'n cynnig ystod o gyfleoedd i ddatblygu darpariaeth i ymestyn, herio a chefnogi disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau llythrennedd Cymraeg a datblygu medrau digidol, yn ogystal â chynnig cefnogaeth ar faterion lles ac anghenion dysgu ychwanegol i ddisgyblion a'u rhieni.

Mae lefel staffio'r ysgol yn ateb gofynion y cwricwlwm ac yn cwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn arbennig o fedrus wrth adnabod cymhwysedd, cryfderau a diddordebau athrawon unigol ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau a chynnig cyfleoedd iddynt rannu arfer dda yn effeithiol iawn. Mae gan yr ysgol brosesau rheoli perfformiad cadarn ac mae hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â'r athroniaeth sy'n gyrru gweledigaeth yr ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd bwriadus o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n gymwys. Mae cymorthyddion yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon. Mae cyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir, ac yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus i ymateb i anghenion penodol. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad eang o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arian o ffynonellau eraill i wella'r ddarpariaeth yn yr ysgol, er enghraifft arian gan Gyfeillon yr Ysgol i brynu offer digidol sy'n cyfrannu'n sylweddol i'r arfer arloesol a welir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi targedu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn synhwyrol at ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, gan gynnwys sicrhau gweithgareddau rhifedd heriol ar gyfer disgyblion uwch eu gallu. Mae'r grant yn bennaf yn ariannu cymorthyddion dysgu i gefnogi datblygiad medrau sylfaenol a lles y disgyblion sy'n ymateb i anghenion penodol, er enghraifft i wella medrau llythrennedd a phresenoldeb.

O ystyried safonau cyflawniad uchel y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6613030 - Ysgol Cae Top**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 233 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 30 | 28 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 86.2 | 83.3 | 92.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.2 | 86.7 | 92.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.6 | 16.7 | 21.4 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 93.3 | 96.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.6 | 20.0 | 21.4 | 53.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 28 | 30 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 96.7 | 96.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 48.3 | 40.0 | 42.9 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6613030 - Ysgol Cae Top**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 233 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 30 | 28 | 28 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.0 | 82.1 | 85.7 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 28 | 28 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 82.1 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 53.3 | 46.4 | 57.1 | 40.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 28 | 28 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.0 | 78.6 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 28 | 28 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 96.4 | 85.7 | 96.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 60.0 | 42.9 | 57.1 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 28 | 28 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 96.4 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 46.4 | 57.1 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 109 | 109<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 109 | 109<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 109 | 109<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 109 | 109<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 109 | 109<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 109 | 107<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 109 | 109<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 109 | 109<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 109 | 106<br>97%<br>91% | 3<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 109 | 109<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 109 | 105<br>96%<br>77% | 4<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 109 | 107<br>98%<br>84% | 2<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 58 | 38 | 16 | 2 | 2 | 3 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 66% | 28% | 3% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 60 | 46 | 11 | 2 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 77% | 18% | 3% | 2% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 60 | 46 | 12 | 1 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 20% | 2% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 61 | 40 | 14 | 3 | 4 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 23% | 5% | 7% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 60 | 30 | 23 | 3 | 4 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 50% | 38% | 5% | 7% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 58 | 35 | 19 | 2 | 2 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 3% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 61 | 41 | 18 | 0 | 2 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 30% | 0% | 3% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 55 | 30 | 21 | 1 | 3 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 55% | 38% | 2% | 5% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 57 | 39 | 13 | 1 | 4 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 68% | 23% | 2% | 7% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 61 | 37 | 21 | 2 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 61 | 47 | 12 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 20% | 2% | 2% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 49 | 35 | 11 | 1 | 2 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 71% | 22% | 2% | 4% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 59 | 29 | 25 | 2 | 3 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 42% | 3% | 5% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 59 | 42<br>71% | 13<br>22% | 1<br>2% | 3<br>5% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 54 | 29<br>54% | 19<br>35% | 4<br>7% | 2<br>4% | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 56 | 32<br>57% | 19<br>34% | 3<br>5% | 2<br>4% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 46 | 26<br>57% | 16<br>35% | 1<br>2% | 3<br>7% | 15 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 57 | 36<br>63% | 19<br>33% | 1<br>2% | 1<br>2% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 58 | 39<br>67% | 15<br>26% | 2<br>3% | 2<br>3% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Gwennol Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llew Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.